CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL
BWRDD CYMRU | WALES BOARD

DATGANIAD I'R WASG

Y corff gwarchod iechyd yn dweud bod y bobl y mae eu gofal a'u triniaeth wedi cael eu gohirio yn ystod y pandemig coronafeirws angen gwybod nad ydyn nhw wedi cael eu hanghofio

Mae adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd heddiw gan Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) yng Nghymru yn dangos gwerthfawrogiad parhaus ac eang o weithwyr GIG, tra'n datgelu bod angen gwneud rhagor eto i helpu pobl y mae eu gofal a'u triniaeth wedi eu hoedi oherwydd y pandemig coronafeirws.

CICau ydy cyrff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae CICau yn annog ac yn galluogi pobl i gymryd rhan yn weithredol mewn penderfyniadau sydd yn effeithio ar ddyluniad a darpariaeth gofal iechyd i'w teuluoedd a'u cymunedau lleol.

Drwy gydol y pandemig coronafeirws mae CICau wedi clywed am yr effaith torcalonnus y mae oedi mewn gofal a thriniaeth wedi ei gael ar bobl oherwydd y pandemig.

Clywodd CICau hefyd am y pryderon sydd gan bobl ynghylch mynd yn sâl yn y dyfodol oherwydd nad ydy adnabod symptomau yn gynnar wedi bod yn bosibl bob amser tra bod nifer o wasanaethau GIG wedi cael eu gohirio.

Dywedodd John Pearce, Cadeirydd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru:

"Mae pobl sydd yn byw yng Nghymru yn gwybod ac yn deall bod y pandemig byd-eang a newidiodd ein bywydau yn gynharach

eleni wedi golygu bod gan, ac y bydd gan y GIG heriau mawr wrth iddo ddelio gyda'r niwed a achoswyd gan y feirws yma.

I lawer o bobl oedd eisoes wedi bod yn aros am amser hir i gael triniaeth cyn y pandemig, mae'r effaith parhaus, ac yn aml effaith sydd yn gwaethygu, ar eu bywydau beunyddiol ynghyd â'r ansicrwydd ynglŷn â phryd y gallent gael triniaeth yn gwneud pethau hyd yn oed yn galetach.

Fe wnaethom glywed am y gwahaniaeth y mae'n ei wneud i bobl pan maen nhw'n gwybod ac yn deall beth sydd yn digwydd gyda'u gofal a'u triniaeth, a lle y maen nhw'n gallu mynd i gael cyngor a chefnogaeth pellach. Mae hyn yn gwneud unrhyw oedi yn haws i'w reoli.

Pan nad yw hyn yn digwydd, mae pobl yn mynd yn fwy pryderus a phoenus, yn enwedig os nad ydyn nhw'n gwybod y rhesymau pam neu pryd y mae modd iddyn nhw gael eu gweld. Maen nhw'n poeni am gael eu hanghofio yn y system, ac yn aml dydyn nhw ddim eisiau poeni'r GIG i gael gwybodaeth ar adeg mor brysur."

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos pobl yn aros am driniaeth yng Nghymru yn datgelu effaith y pandemig coronafirws ar amseroedd aros. Mae'r straeon y mae pobl yn eu rhannu â CICau yn dangos yr effaith ddinistriol y mae hyn yn ei chael ar fywydau pobl

Mae angen gwneud rhagor fel bod y GIG yn cadw mewn cysylltiad yn rheolaidd gyda'r bobl sydd yn aros am driniaeth fel eu bod yn derbyn gwybodaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Rhaid i bobl gael y cyngor a'r gefnogaeth angenrheidiol i'w helpu i reoli'r effaith y mae gorfod aros yn hirach am driniaeth yn ei gael ar eu bywydau beunyddiol.

Mae'r heriau sydd yn wynebu'r GIG wrth iddo barhau i weithio i ailgyflwyno gwasanaethau a delio gyda'r rhestrau aros yn ddigynsail.

Wrth inni barhau i fyw gydag effeithiau'r feirws, mae'n hanfodol bod cyrff GIG yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael y cydbwysedd yn gywir wrth ailgyflwyno gwasanaethau a delio gyda'r rhestrau aros i bobl sydd yn byw ym mhob rhan o Gymru cyn gynted ag y mae'n bosibl wneud hynny.

DIWEDD

Ymholiadau cyfryngau i Matthew Parr @ Working Word ar 02920 455 182 neu e-bost matthew.parr@workingword.co.uk

NODIADAU I OLYGYDDION

Mae Bwrdd CICau yn cynrychioli'r 7 CIC yng Nghymru.

CICau ydy cyrff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae CICau yn annog ac yn galluogi pobl i gymryd rhan yn weithredol mewn penderfyniadau sydd yn effeithio ar ddyluniad a darpariaeth gofal iechyd i'w teuluoedd a'u cymunedau lleol

Gan weithredu ar ran eu poblogaeth leol, mae CICau yn monitro perfformiad gwasanaethau GIG yn eu hardal yn rheolaidd yn ogystal ag ymateb i ddatblygiadau a newidiadau mewn gwasanaethau.

Mae CICau yn cynnal deialog parhaus gyda'r cyhoedd drwy amrediad eang o rwydweithiau cymunedol, cysylltiad uniongyrchol gyda chleifion, teuluoedd a gofalwyr drwy ymholiadau,Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion, gweithgareddau ymweld a thrwy arolygon cyhoeddus ac arolygon cleifion.

Mae pob un o'r 7 CICau yng Nghymru yn cynrychioli 'llais y claf' o fewn eu hardaloedd daearyddol neilltuol.